

Fforwm Mynediad Lleol Dwyrain Conwy a Sir Ddinbych

Cofnodion y Cyfarfod
a gynhaliwyd
ddydd Mercher 14 Rhagfyr 2016
yn
Ystad Rhug, Corwen
am 13:30 pm

Aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol

Tim Faire
Nicholas Lloyd
Heather Fitzgerald
Chris Marshall
Joanne Hughes
Cyng Martyn Holland
Hilary Davies
Kevin Slattery
Max Grant
John Buckley
Kay Culhane
Iona Pierce

Cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych

Hannah Arndt (Swyddog Mynediad) Ysg. y Fforwm
Adrian Walls (Rheolwr Hawliau Tramwy)
Howard Sutcliffe (Swyddog Cefn Gwlad)
Helen Mrowiec (Uwch Swyddog Hamdden)

Cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Sian Williams (Swyddog Mynediad)
Caroline Turner (Swyddog Mapiau Diffiniol)
Victoria Currie (Cydlynnydd Ardal y De)

Cafwyd ymddiheuriadau gan: -

Tony Proffit, Hugh Crosswood, Cyng Dave Cowans (CBSC), Dan Hurst, Jim Gaffney

1. Croeso

Croesawodd Tim Faire bawb i'r cyfarfod a dywedodd ei fod yn falch o fod yn cadeirio'r Fforwm Mynediad Lleol. Byddai'n gwneud ei orau i ddod ag ymagwedd ystyrlon a chytbwys i'r cyfarfod.

Nodwyd fod y cyflwyniad ar yr Ymgynghoriad Teithio Llesol wedi cael ei ganslo.

2. Diweddariadau gan CBS Conwy a Chyngor Sir Ddinbych ers cyfarfod diwethaf y Fforwm.

Nododd Sian Williams fod Fforwm Mynediad Lleol diwethaf Conwy wedi'i gynnal yn 2011. Mae gan CBS Conwy Gynllun Gwella Hawliau Tramwy (CGHT) sy'n rhedeg o 2008-2017. Cyn y CGHT, aseswyd fod hwylustod defnyddio a mynediad i lwybrau yng Nghonwy rhwng 20-30%. Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r Awdurdod wedi bod yn cwblhau arolwg 5% blynyddol o'r rhwydwaith ac mae canlyniadau diweddaraf yr arolwg wedi dod i'r casgliad fod 70% o'r llwybrau yn hawdd eu defnyddio. Mae'r Awdurdod yn parhau i wneud arolwg blynyddol 5%, gyda'r gwaith yn cael ei wneud gan fyfyrwyr.

Mae Sian Williams bellach yn rheoli cyllideb y CGHT. Nododd fod cyfarfod o'r Prosiect Taith Pererin wedi cael ei gynnal yn ddiweddar.

Agwedd arall o'i gwaith oedd Grŵp Cerdded Cymunedol 'Cerdded Conwy' sy'n cynnig teithiau tywys lleol. Mae'n bosibl y byddai'r Fforwm yn dymuno ymgysylltu â'r grŵp hwn yn y dyfodol.

Nid oes gan Conwy ôl-groniad o orchmynion cyfreithiol – mae Caroline Turner yn delio â chau dros dro a gwyradau.

Oherwydd cyfyngiadau'r gyllideb, mae gwaith Hawliau Tramwy (HT) wedi gorfod cael ei dynnu i lawr i'r pethau sylfaenol.

Ers i Fforwm Mynediad Lleol Conwy gwrdd ddiwethaf mae strwythur rheoli HT wedi newid yn CBS Conwy. Mae'r Tîm HT a arferai gyflogi 6 aelod o staff wedi'i ddiddymu erbyn hyn. Nid oes gan y strwythur newydd Dîm Cefn Gwlad na Hawliau Tramwy. Mae Lyn Davies yng ngofal yr Adran Mannau Agored sydd hefyd yn cynnwys gwastraff a pharciau. Mae tri rheolwr yn eistedd o dan Lyn Davies ac o dan y rhain y mae Cydlynwyr Ardal. Mae Victoria Currie yn un o'r cydlynwyr hyn sy'n rheoli tîm ardal yn y maes. Daw unrhyw broblemau neu gwynion i Swyddfa CBS Conwy ym Mochdre. Dylid adrodd am broblemau wrth y Gwasanaethau Cwsmer erf@conwy.gov.uk 01492 575337, gan gynnwys cynifer o fanylion â phosibl.

Eglurodd Sian Williams fod ganddi rôl mynediad canolog o hyd ac mae Victoria Currie yn dal i roi cyngor er nad yw mwyach yn Swyddog Hawliau Tramwy. Bydd Victoria Currie yn arwain yr adolygiad CGHT ac mae'r Awdurdod yn ystyried ar hyn o bryd sut bydd yr adolygiad yn cael ei gynnal. Cafodd y CGHT ei gydgrynhoi yn 2013 - ei gydgrynhoi eto yn 2018, mae'r ddogfen wedi'i digideiddio'n llwyr ac mae ar gael ar y wefan.

Gofynnodd John Buckley faint o broblemau HT sy'n cael eu cofnodi ar hyn o bryd ac ydyn nhw'n codi neu'n disgyn.

PENDERFYNWYD

CBS Conwy a Chyngor Sir Ddinbych i adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf ar nifer y cwynion sy'n gysylltiedig â Hawliau Tramwy.
Victoria Currie i anfon y ddolen i'r CGHT i Hannah Arndt i'w ddsbarthu gan ei bod yn anodd dod o hyd iddi ar y wefan.

Nododd Howard Sutcliffe fod Adrian Walls wedi diffinio rôl y Tîm HT sy'n delio ag ochr gyfreithiol y llwybrau yng nghyfarfod y bore. Mae gan y Gwasanaeth Cefn Gwlad rôl gyda'r llwybrau sy'n cael eu hyrwyddo. Mae'r Gwasanaeth yn rheoli Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa, Llwybr Arfordir Cymru, a llwybrau rhanbarthol, Llwybr Hiraethog, Llwybr Gogledd Cymru, Llwybr Gogledd y Berwyn, Taith Tegid, Llwybr Dyffryn Dyfrdwy a Thaith Brenig.

Mae Milltiroedd Cymunedol yn brosiect ar y cyd rhwng y Tîm HT a'r Gwasanaeth Cefn Gwlad, gyda 12 wedi'u cyhoeddi hyd yma. Mae'r prosiectau yma'n cael eu

cynllunio ar y cyd â chynghorau cymuned i greu taith gylchol leol mewn cymunedau lleol.

Mae gan Wasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych 23 o gownteri ymwelwyr y mae Hannah Arndt yn eu monitro ac mae'r rhain yn rhoi rhywfaint o wybodaeth ar ddefnydd y llwybrau.

Roedd Sir Ddinbych yn rhan o gynllun peilot Mynediad Agored a chafodd Mynediad Agored yng Nghymru ei lansio yn y Sir. Nododd Howard Sutcliffe fod y map Mynediad Agored wedi'i adolygu yn ystod y flwyddyn.

Mae'r gwasanaeth yn rheoli Parc Gwledig Loggerheads, Pwll y Brickfield yn y Rhyl a Phlas Newydd, Llangollen. Mae 50 o safleoedd ledled y Sir o safleoedd bychain i rai mwy, fel Parc Gwledig Moel Famau yn dod o dan bortffolio'r Gwasanaeth Cefn Gwlad. Mae rhai yn safleoedd lleol ac eraill yn ardaloedd pot mêl ac mae gan rai ddynodiadau cadwraeth natur hefyd. Er enghraifft, mae Twyni Gronant yn Ardal Cadwraeth Arbennig ac yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, dyma'r unig le ble mae'r fôr-wennol fach yn nythu yng Nghymru. Mae gan y Gwasanaeth wardeiniaid yn y maes i reoli'r safle a gwneud gwaith mynediad.

Mae gan Wasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych Warchodfeydd Natur Lleol hefyd, dynodwyd y bedwaredd yn ddiweddar yn Rhuddlan. Mae gwaith newydd ddod i ben yn Nhomen y Rhodwydd (Llandegla) sy'n cynnwys mynediad caniatol i'r safle hanesyddol.

Mae'r Gwasanaeth yn rheoli rhai gwefannau hefyd, sy'n cynnwys Sir Ddinbych O Fewn Cyrraedd sy'n rhoi gwybodaeth am safleoedd mwyaf hygyrch y Sir. Mae'r staff yn ceisio cael cyllid pellach i wneud gwaith prosiect, a derbyniwyd grant yn ddiweddar i gael Mynediad i'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Cyflwynwyd tri chais o dan Gynllun Rheoli Cynaliadwy Llywodraeth Cymru mewn partneriaeth ag eraill – Pori Anifeiliaid, Ffridd i'r Afon a Hyfforddi Graddedigion.

Eglurodd Howard Sutcliffe fod y Gwasanaeth yn rhan o waith Tirweddau'r Dyfodol sy'n cael ei arwain gan Lywodraeth Cymru i edrych ar ddyfodol Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yng Nghymru.

Mae'r ardal hefyd yn cynnwys Safle Treftadaeth y Byd Pont Ddŵr Pontcysyllte a'r Gamlas – gyda gwefan newydd wedi'i lansio'n ddiweddar. Mae'r safle yn eistedd o fewn Wrecsam, Sir Ddinbych a Sir Amwythig.

Holodd Kevin Slattery a oedd y Gwasanaeth yn gweithio gydag Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru.

Atebodd Howard Sutcliffe fod Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych yn gweithio mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt ar nifer o brosiectau, er enghraifft y prosiect Tirwedd Fyw sy'n edrych ar gadwraeth mewn ardal arbennig, yn cynnwys rhywogaethau estron a phathewod. Mae'r prosiect Pori Anifeiliaid yn bartneriaeth â'r Ymddiriedolaeth hefyd.

Nododd Adrian Wells fod prosiectau mynediad wedi cael eu cyflwyno hefyd mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth. Datblygwyd llwybr beicio newydd gan Sir Ddinbych ar un o safleoedd Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru -

Gors Maen Llwyd, Llyn Brenig, ac mae'r Ymddiriedolaeth wedi cytuno i gyflwyno'r llwybr.

Canmolodd y Cyng Martyn Holland y prosiect Milltiroedd Cymunedol. Mae yna alw am brosiectau Milltiroedd Cymunedol, gan fod y cynllun nid yn unig yn hybu cerdded ond hefyd yn tynnu sylw at fusnesau lleol. Byddai'r Cyng Martyn Holland yn hoffi i bobl ddod i fwynhau'r ardal, ond hefyd i wario arian yn y siopau a'r tafarndai. Yn ychwanegol, uwchraddiwyd y llwybrau troed yn sgil y prosiect, ac mae hynny o fudd mawr.

Dywedodd Howard Sutcliffe fod cymunedau Llandegla a Llanarmon yn iâl wedi llwyddo'n dda i gadw eu siopau cymunedol a'u tafarn ar agor a'u bod yn esiamplau mewn adegau pan mae ardaloedd eraill yn colli eu cyfleusterau. Nododd y Cyng Martyn Holland fod ymwelwyr yn allweddol i gadw'r rhain ar agor. Mae Llandegla hefyd ar Lwybr Cenedlaethol Clawdd Offa ac mae llawer o gerddwyr yn aros i gael paned a chacen yn siop y pentref.

Cytunodd Tim Faire fod ymwelwyr yn bwysig er mwyn cadw cyfleusterau ar agor, cyfleusterau fydd ar gael hefyd i'r gymuned leol.

Awgrymodd Max Grant drefnu cyflwyniad ar y Prosiect Milltiroedd Cymunedol yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD

Cael cyflwyniad ar y Prosiect Milltiroedd Cymunedol yn un o'r cyfarfodydd nesaf.

Dywedodd Howard Sutcliffe fod gwelliannau wedi cael eu gwneud hefyd i ymestyn y maes parcio yn Loggerheads. Mae'r incwm o'r maes parcio yn dod yn ôl i'r Gwasanaeth sydd yn galluogi cynnal a chadw'r safleoedd hyn.

3. Blaenoriaethu Gwaith

Cyfeiriodd Hannah Arndt at y Cylch Gorchwyl i'r Fforymau Mynediad Lleol yn y ffeil a roddwyd i'r aelodau. Ynddo mae gwybodaeth am gyfarfodydd, treuliau a gweinyddiaeth.

Is Grwpiau

Nododd Max Grant fod nifer o is grwpiau wedi cael eu sefydlu yn sesiwn olaf FfMlLl Conwy: Polisiau a Gweithdrefnau, Ceffylau, Mynediad i Bawb, CGHT. Roedd y grwpiau'n cynnwys 3 – 6 o aelodau ac roeddent yn adrodd yn ôl i'r FfMlLl llawn.

Cyfeiriodd Hannah Arndt yr aelodau at Adran 4 – Cyfarfodydd, yn y canllaw, sy'n dweud fod is grwpiau FfMlLl yn rheoli eu hunain a chadeirydd yr is bwyllgor sy'n gyfrifol am wneud y trefniadau ar gyfer y cyfarfodydd hyn. Yn Sir Ddinbych sefydlwyd grwpiau gorchwyl a gorffen pan oedd gan y grŵp feysydd gwaith penodol i'w cwblhau, er enghraifft ymgynghoriad Glasdir, yn hytrach na'u bod yn grwpiau parhaol.

PENDERFYNWYD

Sefydlu is grwpiau fel a phan fo'r angen.

Cyllidebau

Nododd y Cyng Martyn Holland y gallai cyllidebau fod yn faes blaenoriaeth yn y dyfodol.

Gwirfoddolwyr

Dywedodd y Cyng Martyn Holland fod gan ei etholaeth ef grŵp prysur o wirfoddolwyr sy'n gwneud gwaith ar ran y gymuned a bod hwn yn rhywbeth y dylid ei annog.

Ymweliadau Safle

Nododd Howard Sutcliffe fod angen trafod lleoliad y cyfarfodydd, a gofynnodd ble'r hoffai'r aelodau gynnal eu cyfarfodydd. Arferai FfMLl Sir Ddinbych gael ymweliadau safle i edrych ar waith oedd wedi'i gwblhau neu yn yr arfaeth - roedd rhai awgrymiadau'n cynnwys Llwybr Clawdd Offa a'r gwaith tanddaearu ym Modfari.

Siaradwyr gwadd

Teimlai Joanne Hughes y byddai'n ddefnyddiol gwahodd siaradwr gwadd i'r fforwm i drafod materion arbennig fel bod yr aelodau'n gallu dysgu o brofiad pobl eraill. Cytunodd y Cadeirydd y byddai hyn yn syniad da.

Donate a gate

Soniodd Kevin Slattery am brosiect sydd wedi cael ei dreialu ar Ynys Wyth, sef cyflwyno gatiau yn rhodd ar lwybrau. Er enghraifft, mae cannoedd o feinciau er cof yn Llandudno sydd wedi cael eu rhoi gan bobl. Mae gan Ynys Wyth gynllun lle y gall pobl dalu am giât i fod yn lle camfa gyda phlac yn y canol. Y fantais yw bod pobl yn talu am y celfi hyn ac mae'r giât yn gwella mynediad i bobl. Mae Kevin Slattery wedi crybwyll hyn wrth Gyngor Tref Llandudno yn barod - oedd hyn yn rhywbeth y gallai'r FfMLl ei ystyried?

Ymateb Howard Sutcliffe oedd bod pobl yn tueddu i ddod â blodau plastig, tedis, crysau, sgarffiau ayb i feinciau neu goed er cof a all fynd yn broblem i'r Awdurdod ei rheoli. Mae hefyd yn fater sensitif os oes angen symud y giât neu'r fainc neu osod un newydd yn ei lle yn y dyfodol. Mae'r egwyddor yn dda, ond dylai unrhyw rodd fod yn ddienw.

Dywedodd Adrian Walls y gallai'r Fforwm arwain y drafodaeth ar flaenoriaethu ardaloedd i newid camfeydd yn gatiau.

Awgrymodd y Cyng Martyn Holland efallai y byddai Cymdeithas Gadwraeth y pentref â diddordeb mewn prynu giât.

Adolygiad CGHT

Awgrymodd Victoria Currie fod yr eitem hon yn cael ei rhoi ar yr agenda bob tro. Efallai na fydd llawer i'w ddweud mewn rhai cyfarfodydd, ond dylai'r Fforwm gael diweddariad am y cynnydd.

Mynediad i Bawb

Nododd Nick Lloyd mai dyma'r tro cyntaf iddo gael rhan agos â Phwyllgor Awdurdod Lleol a'i fod wedi dysgu cryn dipyn. Byddai ganddo ddiddordeb mewn gweld eitem ar yr agenda i drafod a derbyn gwybodaeth am fynediad i bawb.

Nodwyd y gallai cyflwyniad am waith hygyrchedd gael ei roi i'r FfMLl.

Ymgynghoriad Teithio Llesol

Mae ymgynghoriad Teithio Llesol Conwy yn dod i ben ar 31 Mawrth, felly mae'n dibynnu pryd bydd cyfarfod nesaf y FfMLl yn cael ei gynnal o ran a fydd hyn yn addas i'w drafod. Bydd ymgynghoriad Sir Ddinbych wedi gorffen cyn y cyfarfod nesaf. Gall aelodau anfon sylwadau ar eu rhan eu hunain.

PENDERFYNWYD

Hannah Arndt i anfon nodyn i'r aelodau iddyn nhw gyflwyno unrhyw awgrymiadau pellach i'r Cadeirydd, a fydd yn crynhoi'r rhain.

Dywedodd Tim Faire fod y FfMLl wedi meddwl am restr dda o eitemau a diolchodd i'r aelodau am eu cyfraniadau.

4. Dyddiadau i'r dyfodol

Nododd Hannah Arndt y dylai'r FfMLl gyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn, gan amrywio'r lleoliadau ac adeg y dydd gan fod rhai pobl yn gweithio. Pwysleisiodd Howard Sutcliffe mai'r Cadeirydd a'r Is Gadeirydd ddylai benderfynu ac y byddai taith faes yn lle da i'r fforwm ddechrau. Awgrymodd y Cyng Martyn Holland eu bod yn ceisio cwrdd yn chwarterol a chynigiodd fisoedd Mawrth, Mehefin, Medi a Rhagfyr.

Cafodd Llanrwst ei awgrymu fel lleoliad gan Sian Williams gyda'r posibilrwydd o ymweliad safle â Llwybr Crafnant. Bydd Victoria Currie yn cysylltu â'r swyddog sy'n gyfrifol am ymgynghoriad Teithio Llesol Conwy.

Cafwyd yr awgrymiadau canlynol:

Dydd Mercher 8 Mawrth - Llanrwst, Cyfarfod bore ac ymweliad safle yn y prynhawn i'w drefnu gan Sian Williams.

Mehefin – cyfarfod gyda'r nos yng Nghanolfan Beicio Mynydd Llandegla neu Neuadd y Pentref – ymweliad safle posibl gyda milltiroedd cymunedol / pwynt twristiaeth yn Eglwys Sant Tegla / Clawdd Offa. Mae'n bosibl y gallai Jim Gaffney gyflwyno eitem am feicio mynydd.

Medi – Conwy Arfordirol â'r Gogarth – gwahodd y tenant a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Rhagfyr – cyfarfod gyda'r nos heb ymweliad safle, o bosibl yn Loggerheads. Awgrymwyd hefyd y gellid trefnu ymweliad safle â Fferm Iona Pierce.

5. Unrhyw Fater Arall

Eglurodd Hannah Arndt nad oes Unrhyw Fater Arall fel arfer, mae angen i'r aelodau anfon unrhyw beth y dymunant ei godi ymlaen llaw.

Gellir cael taflenni treuliau gan Hannah Arndt. Gall y fforwm dalu costau teithio ac unrhyw gostau gofalwr cysylltiedig sy'n ymwneud â mynychu'r cyfarfodydd.